RHIF COFRESTREDIG Y CWMNI: 03686475
RHIF COFRESTREDIG YR ELUSEN: 1074898

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Datganiadau Ariannol Anarchwiliedig

31 Gorffennaf 2022

JONES & GRAHAM
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig
45 Stryd y Dyffryn,
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3AH

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Datganiadau Ariannol

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

	Tudalen
Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr (ymgorffori adroddiad y cyfarwyddwyr)	1
Adroddiad adolygwyr annibynnol i'r ymddiriedolwyr	3
Datganiadau gweithgareddau ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a chostau)	4
Datganiad sefyllfa ariannol	5
Datganiad llif arian	6
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	7

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (Ymgorffori Adroddiad y Cyfarwyddwyr)

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr at bwrpas cyfraith y cwmni yn cyflwyno adroddiad a'r datganiadau ariannol anarchwiliedig yr elusen am y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2022.

Cyfeirnod a manylion gweinyddol

Enw'r elusen cofrestredig	Popeth Cymraeg Cyfyngedig	
Rhif cofrestredig yr elusen	1074898	
Rhif cofrestredig y cwmni	03686475	
Prif swyddfa a swyddfa cofrestredig	Canolfan Iaith Clwyd Pwll y Grawys Dinbych Sir Ddinbych LL16 3LF	
Yr ymddiriedolwyr		
	Bon A. Hughes	
	Bon J. Roberts	
	Bon P. Smith	(Ymddeolodd 31 Mawrth 2022)
	Bon D. Berry	
	Bon. Alun Jones	
	Y Fon R Roberts	
	Bon H.M. Brightwell	(Penodwyd 29 Ebrill 2022)
	Bon A.E Jones	(Penodwyd 29 Ebrill 2022)
	Y Fon. D Hughes	
Ysgrifennydd y Cwmni	Verona Pritchard-Jones	
Adolygwr annibynol	Mr E. Jones FCCA 45 Stryd y Dyffryn, DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AH	

Stwythyr, goruchwyliaeth a rheolaeth

Mae Popeth Cymraeg Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant gyda statws elusennol. Rheolir gwaith beunyddiol y corff gan bwyllgor o Ymddiriedolwyr etholedig sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr ar y cwmni. Cânt eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn gan aelodau Popeth Cymraeg Cyf i weithredu ar eu rhan yn unol â'r cyfansoddiad. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn ddeufisol. Mae'r pwyllgor hefyd yn dirprwyo rhai agweddau ar ei rôl reolaethol i is-bwyllgorau penodol yn ôl y galw (e.e. is-bwyllgor apwyntiadau).

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (Ymgorffori Adroddiad y Cyfarwyddwyr) (*parhad*)

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

Amcanion a gweithgareddau

Amcanion yr elusen yw trefnu a darparu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yng Ngogledd Cymru a hyrwyddo agweddau gorau'r diwylliant Cymraeg mewn ysbryd cynhwysol a rhyngwladol.

Prif Ddatblygiadau 2021/2022

1. Cofrestriadau uchel.
   Oherwydd ymgyrch farchnata eang yn y Daily Post ac ar-lein cafwyd cofrestriadau uwch ym mis Medi nag yn y gorffennol.
2. Rhaglen Ar-lein
   Gwnaethon y penderfyniad i barhau i gynnig ein dosbarthiadau i gyd ar-lein am y tro ac aros i weld beth fyddai'r sefyllfa Covid 19. Parhawyd ar-lein tan ddiwedd y flwyddyn addysgol.
3. Oherwydd bod ein rhaglen ar-lein llwyddasom i ddenu llawer iawn o ddysgwyr o ddalgylch eang iawn – rhannau eraill o Gymru, Lloegr a thramor.
4. Apwyntio Tiwtor-Drefnydd 0.4 ychwanegol
   Cynhaliwyd cyfweliad ar gyfer y swydd hon yn y trydydd tymor ac apwyntiwyd Mark Parry, oedd eisoes yn diwtor gyda ni, i'r swydd.
5. Penderfynwyd y byddid yn cynnig rhai dosbarthiadau Mynediad yn y cnawd ym Mis Medi 2022 ochr yn ochr â rhaglen ar-lein.
6. Cynhaliwyd Eisteddfod Yr Urdd yn Ninbych ym Mis Mehefin a bu Popeth Cymraeg a Choleg Cambria yn gyfrifol am babell y dysgwyr ar y cyd. Roedd rhai o diwtoriaid Popeth Cymraeg ar bwyllgor dysgwyr yr eisteddfod.

Adolygiad cyllidol

Roedd diffyg o £13,393 gan Popeth Cymraeg Cyf am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022 i'w gymharu a diffyg o £18,063 am y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2021.

Darpariaeth cwmni bychan

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi yn unol a'r darpariaethau perthnasol i gwmniau â hawl i'r eithriad cwmniau bychan

Cymeradwywyd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ar 17 Ebrill 2023 a llofnowyd ar ran y bwrdd yr ymddireidolwyr gan:-

V. Pritchard-Jones

Bon Alun Jones
Ymddiriedolwr

Verona Pritchard-Jones
Ysgrifennydd yr Elusen

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Adroddiad yr Adolygwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

'Rwyf yn rhoi adroddiad ar ôl adolygu datganiadau ariannol Popeth Cymraeg Cyfyngedig ("yr elusen") am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr y cwmni (ac hefyd y cyfarwyddwyr i bwrpas cyfreithiol cwmniau) 'rydych yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol a gofynion y Ddeddf Cwmniau 2006 ('Deddf 2006').

'Rwyf yn fodlon nad oes angen archwilio cyfrifon y cwmni o dan Rhan 16 o'r Ddeddf 2006 ac eu bod yn gymwys i adolygiad annibynol. 'Rwyf yn cyflwyno adroddiad ynglŷn a fy adolygiad o gyfrifon yr elusen o dan adran 145 o Ddeddf yr Elusennau 2011("Deddf 2011"). Wrth wneud yr adolygiad, yr wyf wedi dilyn trefn y cyfarwyddiadau cyffredinol gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011.

Adroddiad yr adolygwr annibynnol

Gan bod incwm gros yr elusen dros £250,000 mae'n rhaid i'r adolygwr fod yn aelod o un o'r cyrff a restrir yn adran 145 o'r Ddeddf 2011. Yr wyf yn cadarnhau fy mod yn gymwys i ymgymryd a'r adolygiad gan fy mod yn aelod o'r Gymdeithas Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig sydd yn cael ei gynnwys yn y rhestr.

Yr wyf wedi cwblhau fy adolygiad. Cadarnhaf nad oes dim materion wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad a'r adolygiad yn rhoi achos i mi gredu:-

1. nad oedd cofnodion cyfrifo oedd yn berthnasol i'r elusen wedi'u cadw fel sy'n ofynnol gan adran 386 o'r Ddeddf 2006; neu

2. nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu

3. nid yw'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adran 386 o'r Ddeddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg 'gwir a thêg' nad yw yn fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad annibynnol; neu

4. ni baratowyd y datganiadau ariannol yn unol â dulliau ac egwyddorion y "Statement of Recommended Practice" ar gyfer cyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r "Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r adolygiad y dylid tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi cyrraedd dealltwriaeth priodol o'r cyfrifon.

Mr E Jones FCCA
Adolygwr Annibynol

45 Stryd y Dyffryn,
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3AH

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Datganiad Gweithgarerddau Ariannol (yn cynnwys cyfri incwm a chostau)

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

		2022		2021
	Nodyn	Cronfeydd anghyfyng-edig £	**Cyfanswm cronfeydd £**	Cyfanswm cronfeydd £
Incwm a gwaddolion				
Gweithgareddau elusennol	**5**	26,937	**26,937**	23,881
Gweithgareddau masnachu eraill	**6**	303,031	**303,031**	302,214
Incwm buddsoddiadau	**7**	1,056	**1,056**	695
Incwm arall	**8**	1,578	**1,578**	600
Cyfanswm incwm		332,602	**332,602**	327,390
Gwariant				
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**9,10**	346,227	**346,227**	345,453
Cyfanswm gwariant		346,227	**346,227**	345,453
Gwariant net a symudiadau net yn y cronfeydd		(13,625)	**(13,625)**	(18,063)
Cysoniad o'r gronfa				
Cyfanswm y gronfa ddygwyd ymlaen		464,055	**464,055**	482,118
Cyfanswm y gronfa gariwyd ymlaen		450,430	**450,430**	464,055

Mae'r datganiad o'r gweithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a colledion yn y flwyddyn. Mae'r holl incwm a gwariant yn deillo o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 15 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Gorffennaf 2022

	Nodyn	2022 £	2022 £	2021 £
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	**15**		**148,795**	153,854
Asedau cyfredol				
Stoc	**16**	–		360
Dyledwyr	**17**	**3,260**		27,038
Arian yn y banc ac mewn llaw		**304,310**		290,497
		307,570		317,895
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	**18**	**5,935**		7,694
Asedau cyfredol net			**301,635**	310,201
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**450,430**	464,055
Cronfeydd yr elusen				
Cronfeydd anghyfyngedig			**450,430**	464,055
Cyfanswm cronfeydd yr elusen	**20**		**450,430**	464,055

Am y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2022, 'roedd gan yr elusen yr hawl i eithrio rhag archwilio y cyfrifon yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmniau 2006 yn berthnasol i gwmniau bychain.

Dyletswyddau'r cyfarwyddwyr:

- Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r elusen gael archwiliad o'r cyfrifon am y cyfnod perthnasol yn unol ag adran 476 y Ddeddf; ac

- Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chofnodion cyfrifo a paratoi y datganiadau ariannol.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n amodol i drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol yma gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 17 Ebrill 2023 a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi,a'i llofnodi ar ran y bwrdd gan:-

Bon Alun Jones
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 15 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Datganiad Llif Arian

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

	2022 £	2021 £
Llif arian o weithgareddau gweithredu		
Gwariant net	**(13,625)**	(18,063)
Addasiadau am:		
Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol	**6,098**	6,582
Llogau eraill a dderbyniwyd ac incwm tebyg	**(1,056)**	(695)
Llogau taladwy a chostau tebyg	**270**	231
Newidiadau:		
Stoc	**360**	440
Masnach a dyledwyr eraill	**23,778**	3,569
Masnach a credydwyr eraill	**(1,759)**	(9,784)
Arian a gynhyrchwyd o weithredoedd	**14,066**	(17,720)
Llogau a dalwyd	**(270)**	(231)
Llogau a dderbyniwyd	**1,056**	695
Arian net o/(defnyddiwyd yn) gweithgareddau gweithredu	**14,852**	(17,256)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Prynu asedau diriaethol	**(1,039)**	(1,908)
Arian net defnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**(1,039)**	(1,908)
Cynnydd net/(gostyngiad) mewn arian a cywerth arian	**13,813**	(19,164)
Arian a cywerth arian ar ddechrau'r flwyddyn	**290,497**	309,661
Arian a cywerth arian ar ddiwedd y flwyddyn	**304,310**	290,497

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 14 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

1. Gwybodaeth cyffredinol

Mae'r elusen yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru ac yn elusen cofrestredig yn Lloegr a Chymru. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Canolfan Iaith Clwyd, Pwll y Grawys, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LF.

2. Datganiad cydymffurfiad

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi mewn cydymffurfiad â FRS 102, 'The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland', mae'r "Statement of Recommended Practice" yn berthnasol i elusennau yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r "Financial Reporting Standard" yn y DU a'r Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (Charities SORP (FRS 102)) a'r Ddeddf Cwmnïau 2006..

3. Polisiau cyfrifo

Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail y gost hanesyddol, wedi'i haddasu'n unol ag ailbrisiad rhai asedau ariannol a rhwymedigaethau ac eiddo buddsoddi sy'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg drwy elw neu golled

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol yr endid.

Busnes cyfyw

Does dim ansicrwydd ynglŷn a gallu'r elusen i barhau.

Dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae paratoi datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr i lunio barnau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir. Mae'r amcangyfrifon a rhagdybiaethau yma yn cael eu adolygu'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

Cyfrifo'r gronfa

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo unrhyw un o ddibenion yr elusen.

Mae cronfeydd dynodedig yn arian anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant a ddatganwyd gan y rhoddwr neu drwy delerau apêl ac yn disgyn i un o ddwy is-ddosbarthiad: cronfeydd incwm cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol.

3. Polisiau cyfrifo *(parhad)*

Adnoddau i mewn

Mae'r holl adnoddau sy'n dod i mewn wedi'u cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd yr hawl wedi'i drosglwyddo i'r elusen, mae'n debyg y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r elusen a gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Mae'r polisïau penodol canlynol wedi'u cymhwyso i gategorïau penodol o incwm:

- cydnabyddir incwm o roddion neu grantiau pan fo tystiolaeth o hawl i'r rhodd, mae derbynneb yn debygol a gellir mesur ei swm yn ddibynadwy.

- cydnabyddir incwm etifeddiaeth pan fo'r derbyniad yn debygol ac mae hawl wedi'i sefydlu.

- caiff incwm o nwyddau a roddir ei fesur ar werth teg y nwyddau oni bai bod hyn yn anymarferol i fesur yn ddibynadwy, ac os felly mae'r gwerth yn deillio o'r gost i'r rhoddwr neu'r gwerth ailwerthu amcangyfrifedig. Caiff cyfleusterau a gwasanaethau a roddwyd eu cydnabod yn y cyfrifon pan gaiff eu derbyn os gellir mesur y gwerth yn ddibynadwy. Ni chynhwysir symiau ar gyfer cyfraniad gwirfoddolwyr cyffredinol.

- cydnabyddir incwm o gontractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau wrth gyflwyno'r gwasanaeth dan gontract. Caiff hwn ei ddosbarthu fel cronfeydd anghyfyngedig oni bai fod gofyniad cytundebol i'w wario ar bwrpas penodol a'i ddychwelyd os na cheir ei wario, ac os felly gellir ystyried ei fod yn gyfyngedig.

Adnoddau a wariwyd

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau gan fod atebolrwydd yn digwydd. Mae'r gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei adennill yn llwyr, ac mae'n cael ei ddosbarthu o dan bennawd y datganiad o weithgareddau ariannol y mae'n ymwneud ag ef.

- mae gwariant ar godi arian yn cynnwys costau pob gweithgaredd codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachu anelusennol, a gwerthu nwyddau rhoddedig.

- mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl gostau a ysgwyddir gan elusen wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymestyn ei nôd elusennol er lles ei fuddiolwyr, gan gynnwys y costau cefnogi hynny a'r costau sy'n ymwneud â llywodraethu'r elusen a ddosrannwyd i weithgareddau elusennol.

- mae gwariant arall yn cynnwys yr holl wariant nad yw'n gysylltiedig â chodi arian ar gyfer yr elusen nac yn rhan o'i wariant ar weithgareddau elusennol.

Dyrennir yr holl gostau i gategorïau gwariant sy'n adlewyrchu'r adnodd i ni. Dyrennir costau y gellir eu priodoli i un gweithgaredd yn uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Caiff costau a rennir eu dosrannu rhwng y gweithgareddau y maent yn cyfrannu ato ar sail resymol, cyfiawnhad a chyson.

Asedau diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cael eu cofnodi yn ôl y gost i ddechrau, ac wedyn yn cael eu datgan yn ôl y gost, wedi tynnu unrhyw ddibrisiant cronedig a cholledion amhariad. Mae unrhyw asedau diriaethol sy'n cael eu cario ar sail symiau wedi'u hailbrisio yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisiad, wedi tynnu unrhyw ddibrisiant cronedig dilynol a cholledion amhariad cronedig dilynol.

3. Polisiau cyfrifo *(parhad)*

Asedau diriaethol *(parhad)*

Caiff cynnydd yn swm cario ased o ganlyniad i ailbrisio, ei gydnabod mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei bod yn gwrthdroi tâl am nam sydd eisoes wedi'i gydnabod fel gwariant o fewn y datganiad o weithgareddau ariannol. Mae gostyngiad yn swm cario ased o ganlyniad i ailbrisio, yn cael ei gydnabod mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill, ac eithrio y mae'n gwahardd adennill ailbrisio blaenorol, ac os felly, mae'r golled wedi'i ddangos mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Dibrisiant
Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad ased, wedi tynnu ei werth gweddilliol, dros gyfnod oes economaidd ddefnyddiol yr ased hwnnw, fel a ganlyn:

Eiddo rhydd-ddaliad	-	2% llinol
Gosodiadau a Ffitiadau	-	10% llinol
Y Tanerdy – Gosodiadau a Ffitiadau	-	25% lleihau balans
Offer		
Offer a Dodrefn	-	25% lleihau balans

Amhariad asedau sefydlog

Ar bob ddyddiad adrodd cynhelir adolygiad i chwilio am ddangosyddion amhariad, a phan geir dangosyddion o'r fath, amcangyfrifir y swm adferadwy. Os yw'r gwerth cario'n fwy na'r swm adferadwy, bydd gwerth yr ased yn cael ei amharu'n unol â hynny. Ar bob dyddiad adrodd, cynhelir adolygiad o achosion blaenorol o amhariad hefyd er mwyn gweld a yw'n bosib eu gwrthdroi.

At ddibenion profi am amhariad, os nad oes modd amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, amcangyfrifir swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn rhan ohoni. Yr uned cynhyrchu arian yw'r grŵp adnabyddadwy lleiaf o asedau sy'n cynnwys yr ased ac sy'n cynhyrchu mewnlifau arian parod sydd i raddau helaeth yn annibynnol ar y mewnlifau arian parod o asedau neu grwpiau o asedau eraill.

Er mwyn profi amhariad ewyllys da, mae'r ewyllys da a enillwyd mewn cyfuniad busnes yn cael ei ddyrannu, o'r dyddiad caffael, i bob un o'r unedau cynhyrchu arian y disgwylir y byddant yn elwa ar synergeddau'r cyfuniad, p'un a neilltuir asedau neu rwymedigaethau eraill y cwmni i'r unedau hynny ai peidio

Stoc

Mae'r stoc yn cael eu mesur yn ôl y gost isa a'r pris gwerthu amcangyfrifedig, wedi tynnu'r costau cwblhau a gwerthu. Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau prynu, costau trawsnewid a chostau eraill sy'n codi wrth ddod â'r stoc i'w leoliad a'i gyflwr presennol.

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Mae cyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth cysylltiedig ynddo. Mae cyfraniadau wedi'u talu ymlaen llaw yn cael eu cydnabod fel ased i'r graddau y bydd y taliad ymlaen llaw yn arwain at ostyngiad mewn taliadau yn y dyfodol neu ad-daliad arian parod.

3. Polisiau cyfrifo *(parhad)*

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig *(parhad)*

Pan nad oes disgwyl i'r cyfraniadau gael eu setlo'n gyfan gwbl ymhen 12 mis i ddiwedd y dyddiad adrodd y mae'r cyflogeion yn darparu'r gwasanaeth cysylltiedig ynddo, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei mesur ar sail gwerth presennol gostyngol. Mae dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost gyllidol yn yr elw neu'r golled yn y cyfnod y mae'n codi ynddo.

4. Cyfyngedig drwy warant

Nifer o ymddiriedolwyr 8
Gwarant rhwymedigaeth wedi'i gyfyngu i £1 yr un

5. Gweiathgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	Cyfanswm cronfeydd 2021 £
Ffioedd cyrsiau a defnyddiau	26,937	**26,937**	23,881	23,881

6. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	Cyfanswm cronfeydd 2021 £
Cyllid/Incwm breinlen	301,876	**301,876**	296,876	296,876
Hurio a thrwyddedu	219	**219**	219	219
Costau swyddfa ad-dalwyd	826	**826**	5,119	5,119
Gweithgareddau allgyrsiol	110	**110**	–	–
	303,031	**303,031**	302,214	302,214

7. Incwm buddsoddi

	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	Cyfanswm cronfeydd 2021 £
Llôg banc a dderbyniwyd	1,056	**1,056**	695	695

8. Incwm arall

	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cronfeydd Anghyfynge-dig £	Cyfanswm cronfeydd 2021 £
Pensiynau	1,578	**1,578**	600	600

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math o gronfa

	Cronfeydd Anghyfynge-dig	**Cyfanswm Cronfeydd 2022**	Cronfeydd Anghyfynge-dig	Cyfanswm cronfeydd 2021
	£	**£**	£	£
Cyrsiau iaith	105,267	**105,267**	101,845	101,845
Costau cynnal	240,960	**240,960**	243,608	243,608
	346,227	**346,227**	345,453	345,453

10. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math o weithgaredd.

	Gweithgared-au a gyflawnir yn uniongyrchol	Costau cynnal	**Cyfanswm cronfeydd 2022**	Cyfanswm cronfeydd 2021
	£	£	**£**	£
Cyrsiau iaith	105,267	–	**105,267**	101,845
Costau llywodraethu	–	240,960	**240,960**	243,608
	105,267	240,960	**346,227**	345,453

11. Gwariant net

Nodir (costau)/incwm net ar ôl codi/(credydu)

	2022	2021
	£	£
Dibrisiant asedau sefydlog cyffwrddadwy	**6,098**	6,582

12. Ffi arolygiad annibynnol

	2022	2021
	£	£
Ffi yn daladwy i'r adolygwr annibynnol am:		
Adolygiad annibynnol o'r datganiadau ariannol	**3,840**	3,840

13. Costau staff

Mae'r holl gostau staff a budd-daliadau gweithwyr am y cyfnod adroddiadol yn cael eu dadansoddi fel a ganlyn:

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	**163,181**	165,504
Cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn	**22,907**	21,320
	186,088	186,824

13. Costau staff *(parhad)*

Ar gyfartaledd y nifer o weithwyr yn ystod y cyfnod oedd 7 (2021: 9). Mae'r nifer ar gyfartaledd o weithwyr cyfwerth amser llawn yn ystod y cyfnod yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

	2022	2021
	No.	No.
Nifer o staff - gweinyddol	**1**	4
Nifer o staff - tiwtoriaid	**4**	5
Nifer o staff - rheolwr	**1**	–
Nifer o staff - prif weithredwr	**1**	–
	7	9

Ni dderbyniodd yr un gweithiwr budd-daliadau yn fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn (2021: Dim).

14. Tâl a chostau ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl na buddion eraill o gyflogaeth gyda'r elusen neu endid cysylltiedig.

15. Asedau sefydlog diriaethol

	Tir ac adeiladau £	Gosodiadau a ffitiadau £	Y Tanerdy Dodrefn ac offer £	Dodrefn ac offer £	**Cyfanswm £**
Cost					
Ar1 Awst 2021	157,462	21,439	4,467	73,754	**257,122**
Ychwanegiadau	–	–	–	1,039	**1,039**
Ar 31 Gorffennaf 2022	157,462	21,439	4,467	74,793	**258,161**
Dibrisiant					
Ar 1 Awst 2021	15,745	18,219	4,467	64,837	**103,268**
Tâl am y flwyddyn	3,149	460	–	2,489	**6,098**
Ar 31 Gorffennaf 2022	18,894	18,679	4,467	67,326	**109,366**
Swm cario					
Ar 31 Gorffennaf 2022	138,568	2,760	–	7,467	**148,795**
Ar 31 Gorffennaf 2021	141,717	3,220	–	8,917	153,854

16. Stoc

	2022	2021
	£	£
Deunyddiau crai a nwyddau traul	**–**	360

17. Dyledwyr

	2022	2021
	£	£
Dyledwyr masnach	**95**	23,863
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	**2,675**	2,462
Dyledwyr eraill	**490**	713
	3,260	27,038

18. Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2022	2021
	£	£
Taliadau a dderbyniwyd ar gyfri	**30**	–
Credydwyr masnach	**5,905**	7,694
	5,935	7,694

19. Pensiynau a budd-daliadau ôl-ymddeol eraill

Cynlluniau cyfraniad diffinedig

Y swm a gydnabuwyd mewn incwm neu wariant fel traul mewn perthynas â chynlluniau cyfraniad diffiniedig oedd £22,907 (2021: £21,320).

20. Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

Cronfeydd anghyfyngedig

	Ar 1 Awst 2021	Incwm	Gwariant	Trosglwyddi-dau	**Ar 31 Gorffennaf 2022**
	£	£	£	£	**£**
Cronfeydd cyffredinol	626,921	332,602	(346,227)	(162,866)	**450,430**
Cronfa gwerth têg	(162,866)	–	–	162,866	–
	464,055	332,602	(346,227)	–	**450,430**

	Ar 1 Awst 2021	Incwm	Gwariant	Trosglwyddi-dau	**Ar 31 Gorffennaf 2022**
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyffredinol	644,984	327,390	(345,453)	–	626,921
Cronfa gwerth têg	(162,866)	–	–	–	(162,866)
	482,118	327,390	(345,453)	–	464,055

Popeth Cymraeg Cyfyngedig

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol *(parhad)*

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

21. Dadansoddiad o asedion net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd anghyfyng-edig	**Cyfanswm Cronfeydd 2022**
	£	**£**
Asedau sefydlog diriaethol	148,795	**148,795**
Asedau cyfredol	307,803	**307,803**
Credydwyr llai na blwyddyn	(5,936)	**(5,936)**
Asedau net	450,662	**450,662**

	Cronfeydd anghyfyng-edig	**Cyfanswm Cronfeydd 2021**
	£	£
Asedau sefydlog diriaethol	153,854	153,854
Asedau cyfredol	317,895	317,895
Credydwyr llai na blwyddyn	(7,694)	(7,694)
Asedau net	464,055	464,055

22. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyledion net

	Ar 1 Awst 2021	Llif arian	**Ar 31 Gorff 2022**
	£	£	**£**
Arian mewn llaw ac yn y banc	290,497	13,813	**304,310**